Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Chwarae Mochdre**

**Ysgol Babanod Mochdre**

**Heol yr Orsaf**

**Mochdre**

**Conwy**

**LL28 5EF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**gan**

**Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Pentref bach ydy Mochdre ger yr A55 i`r de o Landudno, Gogledd Cymru. Lleolir y cylch chwarae yn Ysgol Babanod Mochdre. Tan 2006 roedd plant y cylch chwarae a disgyblion y dosbarth meithrin gyda`i gilydd mewn un dosbarth ac yn cael eu haddysgu gan aelod o staff yr ysgol. Ers hynny, mae`r cylch chwarae wedi bod ar wahan. Mae`n defnyddio ystafell fawr, olau sydd â digon o adnoddau sy`n arwain at ardal chwarae laswelltog ddiogel tu fas. Mae`r cylch chwarae yn defnyddio cyfleusterau hongian cotiau`r ysgol a buarth tarmac y feithrinfa pan nad yw`r ysgol yn ei ddefnyddio.

Daw rhieni a gofalwyr i mewn i`r lleoliad drwy fuarth yr ysgol. Caiff y plant eu cyfarfod gan staff y cylch chwarae ac mae`r rhieni yn medru ymgartrefu`u plant os oes angen.

Mae`r cylch wedi`i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn uchafswm o 26 o blant. Yn ystod yr arolygiad, roedd 13 o blant yn bresennol, 8 yn dair oed, ac ariennir 7 ohonynt. Roedd 4 aelod o staff yn bresennol.

Daw`r holl blant o`r pentref sydd yn ardal gymuned yn gyntaf gyda rhai yn dod o gartrefi sydd â pherchnogion preswyl ymhellach i ffwrdd. Daw`r holl blant o gartrefi lle siaredir Saesneg. Does neb o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae`r cylch chwarae yn barod iawn i dderbyn plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gan gynnwys rhai â phroblemau meddygol, ymddygiadol a phroblemau cyfathrebu. Caiff pob un ohonynt gefnogaeth dda ac mae gan y cylch chwarae gysylltiadau da ac effeithiol gyda`r ganolfan atgyfeirio proffesiynol lleol.

Mae`r plant yn dechrau yn y cylch chwarae yn y tymor sy`n dilyn eu penblwydd yn ddwy oed ac yn gadael ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn dair oed. Mae`r cylch chwarae ar agor am 5 prynhawn yr wythnos rhwng 12.30 a 3 y.p. yn ystod tymor yr ysgol. Cafodd y cylch chwarae ei arolygu gan Estyn pan oedd yn rhan o ddarpariaeth feithrin yr ysgol ac mae`r cylch wedi mynd i`r afael â`r argymhelliad cafodd ei nodi. Ers yr arolygiad (2005) mae gan y cylch staff a rheolaeth hollol newydd. Mae`r cylch chwarae yn rhan o Gymdeithas Darparwyr Cyn ysgol Cymru.

Arolygwyd y cylch chwarae ddiwethaf gan AGGCC yn Chwefror 2011. Mae`r cylch wedi mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

- Mae`r holl blant yn cyflawni`n dda ac yn gwneud cynnydd da o`u mannau cychwyn.
- Mae medrau iaith y plant (Saesneg a Chymraeg) yn gyfyngedig ond yn datblygu.
- Mae`r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y cylch chwarae ac yn awyddus i fynychu.
- Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau da at ddysgu.
- Mae`r cynllunio yn bodloni gofynion y plant ac mae`r gweithgareddau yn eu diddori.
- Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iaith yn ddigonol.
- Ar y cyfan, mae`r addysgu`n dda, nid yw`r asesu`n cael ei ddefnyddio`n gyson i ategu`r gwaith o gynllunio`r cwricwlwm.
- Mae`r gofal, cymorth ac arweiniad, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.
- Mae`r amgylchedd dysgu yn dda; mae gan y cylch chwarae ethos a chyfleoedd cyfartal sy`n dda.
- Mae trefniadau partneriaeth da ar waith.

### Rhagolygon gwella

- Mae gan y cylch chwarae hanes da o sicrhau newid.
- Mae ganddo hanes da o addasu a gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau.
- Ar hyn o bryd, mae staff y cylch chwarae a`r person cofrestredig sydd â chyfrifoldeb dros y cylch chwarae yn cyd-weithio`n dda.
- Mae`r hunanarfarnu wedi nodi cryfderau a meysydd i`w gwella sy`n realistig ac yn gyrraeddadwy.
- Mae`r person cofrestredig yn adnabod y cylch chwarae`n dda ac mae`r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac maent yn canolbwyntio ar wella`r ddarpariaeth.

## Argymhellion

Mae angen i`r cylch chwarae:

1. roi mwy o bwyslais ar ddatblygu medrau llythrennedd y plant yn Saesneg ac yn y Gymraeg;
2. adolygu gweithdrefnau asesu er mwyn canolbwyntio ar ddatblygiad medrau`r plant ac i nodi`r camau nesaf yn eu dysgu ac i leihau biwrocratiaeth cyn belled â phosibl;
3. cynnwys rhieni yn fwy yn nysgu`r plant; a
4. gwneud gwell ddefnydd o`r ardal chwarae tu allan er mwyn cynyddu`r dewis o weithgareddau sydd ar gael i`r plant.

Roedd yr arolygiad wedi cydnabod bwriad y Pwyllgor Rheoli i apwyntio arweinydd i`r cylch chwarae ar gyfer y flwyddyn addysgol nesaf.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch chwarae yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob plentyn yn gwneud cynnydd realistig ac yn cyflawni safonau da mewn perthynas â`u mannau cychwyn. Mae`r rhan fwyaf yn gweithio`n dda ar eu tasgau gan ddewis eu gweithgareddau a gwneud ymdrech dda yn aml.

Mae gan y plant eirfa gyfyngedig ond sy`n datblygu. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn datblygu medrau gwrando da, er enghraifft yn ystod "amser cylch". Maen nhw`n mwynhau storïau gan fynegi eu diddordeb a`u mwynhad. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac mae llawer yn awyddus i ateb cwestiynau. Fodd bynnag, mae eu hatebion yn aml yn eiriau unigol neu frawddegau anghyflawn ac mae`u mynegiant yn gyfyngedig. Mae`r rhan fwyaf yn amharod i siarad â`r arolygydd.

Ar adegau gwahanol, mae`r holl blant yn edrych ar lyfrau ac mae llawer yn dal llyfrau yn gywir. Cyfyngedig yw eu gallu i siarad am eu hoff stori. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dechrau`r broses o greu marciau, er dim ond ychydig sy`n gwneud sgriblo sy`n hawdd i`w adnabod.

Mae`r holl blant yn dilyn ac yn ymuno gyda rhigymau rhif cyfarwydd ac yn dangos ymwybyddiaeth o rif mewn gweithgareddau cyfrif.  Mae llawer o blant yn rhifo`n gywir i 3 a rhai yn ymhellach, gyda llawer yn cyfrif i 10.  Mae ychydig o`r plant yn deall ystyr “un yn fwy” ond nid yw eu gallu i adnabod rhifolion ysgrifenedig wedi`i ddatblygu`n ddigonol.  Mae`r plant yn dechrau defnyddio iaith fathemategol fel “mawr” a “bach” i ddisgrifio tyrau.

Mae ychydig o blant yn mwynhau gweithio ar y cyfrifiadur ac mae ganddynt fedrau rhesymol fel wrth ddefnyddio`r llygoden.  Mae`r plant yn ymwybodol o offer digidol a`i fod yn gweithio drwy ddefnyddio switsys a botymau.  Mae ychydig o blant yn medru deall y syniad o gyfarwyddo tegan rhaglenadwy.

Mae`r holl blant yn mwynhau gwaith creadigol gan ddangos medrau trin a thrafod da, fel wrth greu patrymau a defnyddio deunyddiau i wneud eu gwrthrychau.  Maen nhw`n mwynhau peintio a chymysgu paent.  Mae`r rhan fwyaf o blant yn dangos medrau corfforol da fel neidio, llithro a dringo.  Maen nhw`n dechrau deall newid tymhorol a`i effaith, fel cwymp y dail yn y gaeaf.

Mae dealltwriaeth a meistrolaeth rhan fwya`r plant yn yr iaith Gymraeg heb ddatblygu`n ddigonol.  Mae`r rhan fwyaf yn medru ailadrodd geiriau ac ymadroddion a siaredir gan oedolion a deall mwy nag y gallant eu siarad.  Maen nhw`n hapus i ymuno mewn caneuon a rhigymau Cymraeg, yn enwedig caneuon actol.  Maen nhw`n ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau gan oedolion, er enghraifft “golchi dwylo”. Fodd bynnag, mae eu gallu i ddefnyddio`r iaith yn gyfyngedig.

**Lles: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o`r plant agweddau da ac maent yn ymddwyn yn dda.  Mae ganddynt syniad sylfaenol o`r rheswm maent yn cael rhai bwydydd yn ystod amser byrbryd gan eu bod yn “fwydydd iach”.

Maent hefyd yn cydnabod pwysigrwydd glanhau eu dannedd a golchi`u dwylo cyn bwyd.  Mae`r cylch chwarae yn eu darparu ag amgylchedd diogel ac mae`r plant yn ymddwyn yn unol â hynny gan dangos digon o hyder i roi cynnig ar weithgareddau newydd a gofyn am gymorth yn ôl yr angen.  Mae`r plant yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a geiriol.

Mae`r holl blant yn dangos mwynhad yn eu dysgu ac mae`r rhan fwyaf yn hapus ac yn awyddus i ymuno.  Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dysgu i fod yn ystyriol a chwarae gyda`i gilydd yn hapus.  Mae ychydig o blant yn gweithio`n annibynnol, er mae angen cymorth ar y rhan fwyaf.

Pan maen nhw`n cael dewis, mae`r rhan fwyaf o`r plant yn dewis eu hoff weithgaredd sy`n nodi bod eu medrau gwneud penderfyniadau yn datblygu.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r cynllunio`n ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus. Mae`r gweithgareddau o dydd i ddydd yn darparu gweithgareddau heriol ac arloesol sydd wedi`u cynllunio`n dda i alluogi`r plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau`r Cyfnod Sylfaen. Mae`r cynllunio`n ddigon hyblyg ac yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant. Drwyddi draw, mae gweithdrefnau da ar waith i gynllunio`r cwricwlwm ac maent yn effeithiol. Yn ogystal, mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, sy`n cyfateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae`r cofnodion hyn yn dangos yn glir agweddau o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen sydd wedi`u cynllunio a`u cynnwys yn y gweithgareddau dyddiol. Mewn rhai achosion fodd bynnag, mae`n ailadroddus ac mae angen ei symleiddio er mwyn osgoi gwaith diangen.

Mae`r gweithgareddau dysgu yn annog y plant i gymryd rhan ac i ddatblygu eu hunan hyder. Rhoddir pwyslais da ar ddatblygu medrau creadigol y plant a cheir digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau corfforol. Mae eu gweithgareddau yn yr awyr agored yn eu cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth o`r byd a`r angen i ofalu am bethau byw.

Mae`r holl blant yn dechrau caffael medrau sy`n eu galluogi i gael mynediad i bob maes o`r cwricwlwm. Ar y cyfan, caiff gweithgareddau da eu cynllunio i alluogi plant i ddefnyddio a datblygu eu medrau. Nid yw`r cylch chwarae, fodd bynnag, yn canolbwyntio`n ddigonol ar ddatblygu medrau cyfathrebu`r plant yn y ddwy iaith. Nid oes digon o gyfleoedd wedi`u cynllunio i annog y plant i siarad a defnyddio`r iaith yn eu gweithgareddau bob dydd. Mae hyn yn wir am y Saesneg a`r Gymraeg. Mae`r cynllunio i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o rai o draddodiadau a dathliadau Cymru yn briodol.

Drwy weithgareddau ymarferol, mae`r plant yn dechrau dysgu am ail-gylchu. Maen nhw`n casglu unrhyw lysiau a ffrwythau sy`n wastraff a`u hychwanegu i`r compost. Maen nhw`n gwybod hefyd nad ydynt i roi`r blychau llaeth yn y bin sbwriel gan eu bod yn cael eu casglu ar wahan.

**Addysgu: Da**

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o ofynion ac athroniaeth y Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt brofiad o weithio gyda phlant. Mae`r staff yn dangos ffordd dawel a hyderus ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn, gan gynnwys y rhai a nodwyd fel rhai fydd angen cymorth dysgu ychwanegol o bosibl.

Mae`r cynllunio yn sail da i`r addysgu gan ddarparu sylfaen dda i`r gweithgareddau dyddiol. Mae`r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o`u gallu a`u hanghenion unigol. Defnyddir cwestiynu yn dda i gefnogi`r plant. Hefyd, mae`r cynllunio`n sicrhau cydbwysedd da rhwng y gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan

y plentyn a gweithgareddau sy`n cael eu cyfeirio gan oedolyn. Nodwedd sy`n nodedig ac yn dda yw dealltwriaeth y staff o bryd i ymyrryd a phryd mae`n well i adael plentyn i weithio ar ei ben/ei phen ei hun. Fodd bynnag, mae`r staff yn wyliadwrus i sicrhau bod yr holl blant yn cymryd rhan yn weithredol. O edrych ar wybodaeth yn y cynllunio, mae`r staff yn ymwybodol o`u rolau a`r hyn a ddisgwylir ganddynt.

Asesir y plant yn rheolaidd ac mae`r arsylwadau yn cael eu cofnodi mewn ffeiliau cofnod unigol, mewn llyfrau lloffion ac fel gweithgareddau grŵp sy`n cael eu harddangos. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cyfateb yn dda i allu a chyflawniad blaenorol y plant oherwydd bod y staff yn adnabod eu plant yn dda ac mae`r tasgau yn darparu ar gyfer yr ystod o alluoedd gwahanol.

Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw canlyniadau`r asesu yn cael eu defnyddio`n ddigonol fel sail i`r cynllunio. Mae`r sylwadau ar gyflawniad y plant ar y cyfan yn rhy ddisgrifadol. Nid ydynt yn tynnu sylw at y medrau mae plant unigol wedi`u cyflanwi neu at y camau nesaf yn eu dysgu. Nid ydynt chwaith yn galluogi`r cylch chwarae i dynnu sylw`r rhieni at gynnydd eu plant a`r hyn y gallant ei wneud i`w helpu i wella.

Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn cofnod darluniadol o waith eu plentyn ar ddiwedd y flwyddyn, ac fe`u gwerthfawrogir yn fawr gan rieni a gofalwyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles y plant gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae gweithgareddau bob dydd yn y cylch chwarae yn meithrin gwerthoedd fel goddefgarwch, tegwch, gonestrwydd a pharch at ei gilydd. Maer` plant yn dysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir ac yn dechrau caffael fframwaith gymdeithasol dda sy`n dechrau rhoi rheolau bywyd a medrau gydol oes iddynt. Mae`r amgylchedd tawel a gofalgar hefyd yn werthfawr i`r plant, sydd, yn eu ffordd eu hun yn gwerthafwrogi`r gefnogaeth a gânt gan y staff.

Mae`r holl blant yn cael eu gwerthfawrogi a`u parchu fel unigolion ac mae`n amlwg bod y plant yn sylweddoli bod y staff yn eu parchu. Mae hyn yn effeithiol iawn wrth wella eu hunan hyder a `u teimlad o hunan werth. Roedd synnwyr plentyn o syndod a rhyfeddod yn amlwg wrth iddi ddod o hyd i drychfilod wrth archwilio dail.

Mae`r cylch chwarae, ar y cyd gyda`r ysgol, wedi sefydlu cysylltiadau rhagorol gyda gwasanaethau arbenigol proffesiynol allanol. Mae`r staff yn wyliadwrus wrth arfarnu a monitro plant y tybir bod ganddynt anghenion dysgu penodol ac maen nhw`n gyfarwydd â`r gweithdrefnau angenrheidiol. Adroddodd rhieni a gofalwyr eu bod yn cael ymgynghoriad ar bob cam gan ddweud bod y system yn llwyddo yn nhermau cynnydd eu plant.

Mae`r gweithdrefnau diogelu yn briodol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac aelod hŷn o`r staff yw`r person â chyfrifoldeb. Mae`r holl staff wedi derbyn yr

hyfforddiant angenrheidiol.  Mae`r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Mae gan y cylch chwarae weithdrefnau effeithiol sydd wedi`u hen sefydlu ar gyfer cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Gwneir defnydd da o wasanaethau arbenigol a ddarperir gan yr awdurdod lleol.  Mae gan y plant yma gynlluniau chwarae unigol (CCU) sy`n nodi targedau ar gyfer gwella, dyddiadau ac adolygaiadu cynnydd.  Mae`r rhieni yn arwyddo`r rhain ac yn cael eu cynnwys ymhob cam. Roedd rhieni yn adrodd ar lwyddiant y gefnogaeth a chafwyd gan eu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y cylch chwarae ethos cynhwysol sy`n dawel ac yn gefnogol.  Mae`r holl blant, gan gynnwys  y rhai ag ADY, a pha beth bynnag bo`u cefndir a gallu, yn cael hawl gyfartal i bob maes o`r cwricwlwm.  Nodwedd nodedig a gwerthfawr iawn o`r cylch chwarae yw`r agwedd oddefgar sy`n treiddio trwy bob agwedd o`r cylch chwarae.  Mae hyn yn hyrwyddo awyrgylch sy`n rhydd oddi wrth aflonyddwch ac yn cael gwared ar bron pob ffurf o ymddygiad gormesol.  Mae strategaethau ymddygiad cadarnhaol y cylch chwarae yn llwydiannus iawn yn y ffordd mae`n goresgyn mân gamymddwyn ac yn cynnal ethos da`r cylch chwarae.  Ceir gweithdrefn gwyno sefydledig ond nid yw wedi`i ddefnyddio.

Mae gan y cylch chwarae ddigon o staff ac mae gan bob un ohonynt gymwysterau priodol a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae gan y cylch chwarae ddigon o adnoddau sydd ar gael i`r plant.  Mae`r adnoddau`n canolbwyntio`n dda ar gefnogi`r addysgu o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i ymateb i anghenion y plant.  Mae`r adnoddau a`r cyfleusterau yn yr awyr agored yn ddiogel ac yn cyfateb yn dda i ddiddordebau a gallu`r plant.  Mae`r ardal hon ger y brif ystafell ac yn hawdd i`w chyrraedd ac mae gan y cylch chwarae ddillad tywydd gwlyb angenrheidiol.  Fodd bynnag, dim ond ar adegau penodol y defnyddir yr ardal tu allan ac nid yw`n rhan o`r dewis o weithgareddau sydd ar gael i`r plant.

Ar y cyfan, mae`r ystafelloedd o ansawdd uchel ac yn addas iawn ar gyfer plant o`r oed yma.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae`r cylch chwarae yn gweithredu gyda synnwyr o bwrpas sy`n hyrwyddo datblygiad y plant yn llwyddiannus.  Mae`r staff yn gwybod ac yn debryn eu rolau`n llawn ac mae`r addysgu a`r dysgu yn cael eu rheoli`n dda.  Er bod y cylch chwarae wedi profi newidiadau o ran gweithwyr a chyfrifoldebau yn union cyn yr arolygiad, mae`r newidiadau hyn wedi`u rheoli`n dda iawn gyda`r amhariad lleiaf ar waith y cylch chwarae. Mae`r staff wedi cyd-weithio`n dda a gyda chymorth athrawes yr Awdurdod Lleol mae cynllunio`r cwricwlwm wedi`i wneud yn effeithiol ac mae hyn

wedi sichrau darpariaeth o ansawdd da i’r plant. Roedd pennaeth yr ysgol babanod, sef y person cofrestredig, wedi derbyn cyfrifoldeb dros y cylch chwarae a gyda chymorth cynorthwydd hŷn y cylch chwarae, wedi cadw trosolwg llwyddiannus dros drefniant presennol y cylch chwarae. Mae`r Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno`n llwyddiannus ac mae`r trefniadau cyfredol yn sicrhau bod y plant yn derbyn profiadau da. Mae`r arweinyddiaeth wedi rhoi cyfeiriad strategol da i`r cylch chwarae a gwir synnwyr o bwrpas.

Mae`r berthynas gyda`r plant, gyda rhieni a gofalwyr, a gyda`r pwyllgor rheoli yn gadarnhaol, a thrwyddi draw, mae gwaith y cylch chwarae, er gwaethaf yr anawsterau, wedi bod yn dda tra`n cynnal ffocws ar gyflawni cynnydd da. Mae`r deilliannau ar gyfer y plant wedi bod yn dda ac yn debygol o wella. Mae`r cylch chwarae wedi bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn gyson.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant o hunanarfarnu yn rheded drwy waith y cylch chwarae ac mae`r holl staff yn ymdrechu i roi`r ddarpariaeth orau posibl i`r plant. Mae`r ddogfen hunanarfarnu yn nodi`n glir y meysydd i`w gwella. Mae`r rhain wedi`u blaenoriaethau, yn gyrraedadwy ac yn realistig a`r canlyniad fydd enillion ar gyfer y plant. Mae`r holl staff wedi`u cynnwys yn y broses hunanarfarnu.

Mae safbwyntiau rhieni ac eraill sy`n gysylltiedig â`r cylch wedi`u hystyried. Mae`r staff wedi ymgymryd â datblygiad proffesiynol a hyfforddiant yn rheolaidd ac mae effaith yr hyfforddiant yn amlwg o ran y budd i gynnydd a lles y plant. Mae safbwyntiau rhieni yn cael eu hystyried yn rheolaidd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y cylch gysylltiadau agos a buddiol gyda rhieni a gofalwyr. Mae`r rhieni a`r gofalwyr yn cael eu gwahodd i`r cylch chwarae i arsylwi a siarad â`r staff cyn i`w plentyn ddechrau yn y cylch chwarae. Yn ogystal ,mae rhieni yn cael pecyn gwybodaeth (datganiad o ddiben). Mae croeso iddynt ddod â`u plant er mwyn eu hymgartrefu a sefyll gyda nhw. Mae`r staff ar gael bob amser i siarad â rhieni ac wrth drafod â rhieni, dywed eu bod yn gwerthfawrogi`r cyswllt anffurfiol hyn. Mae`r rhieni a`r gofalwyr hefyd yn derbyn cylchlythyrau rheolaidd a llyfr lloffion o waith eu plentyn ar ddiwedd y flwyddyn.

Dywedodd rhieni bod diddordeb ganddynt yng ngweithgareddau`u plant a byddent yn gwerthfawrogi gwybodaeth bellach a rheolaidd. Byddai hyn yn eu galluogi i gymryd mwy o ran yn nysgu a chynnydd eu plant. Dywedodd rhieni eu bod yn cael eu hysbysu a`u cynnwys yn dda ymhob cam os oedd angen cymorth ychwanegol ar eu plentyn.

Un o fanteision o gael y cylch chwarae yn yr ysgol yw rhwyddineb trosglwyddo`r plant i`r cam nesaf yn eu haddysg. Mae`r plant yn adnabod yr athrawes feithrin yn dda. Mae plant y cylch chwarae yn defnyddio cyfleusterau`r ysgol ac yn adnabod plant yr ysgol.

Mae`r Awdurdod Lleol wedi chwarae, ac yn chwarae rhan arwyddocaol drwy gefnogi`r cylch chwarae. Mae`n darparu cyfleusterau arbenigol wrth gefn yn ôl yr angen. Mae cefnogaeth dda ac effeithiol wedi`i rhoi gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol, yn enwedig drwy roi cyngor, cefnogaeth a chymorth i`r cynllunio yn wythnosol.

Drwyddi draw, mae`r partneriaethau strategol yn profi`n fuddiol ac mae`r cynllunio ar y cyd gydag athrawes ymgymhorol yr awdurdod lleol wedi bod yn effeithiol gan sicrhau darpariaeth o ansawdd da.

Mae`r cylch yn elwa hefyd o fod yn rhan o Gymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (WPPA).

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r staff yn cyd-weithio`n effeithiol ac mae pob un yn gwybod ac yn derbyn eu rolau. Mae gan y cylch chwarae ddigon o adnoddau i fodloni anghenion y plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen. Defnyddir yr adnoddau`n dda i gefnogi`r addysgu a`r dysgu. Mae`r ystafell wedi`i gwahaniaethu`n briodol i ardaloedd o weithgareddau ac mae arddangosfeydd o waith y plant yn cyfoethogi`r amgylchedd dysgu.

Defnyddir yr adnoddau tu allan yn dda i ymestyn profiadau`r plant ond ar hyn o bryd dim ond ar adegau penodol caiff y plant fynediad i`r ardal hon. Mae`r cylch chwarae yn elwa hefyd o ddefnyddio buarth yr ysgol a chaiff y plant ddefnydd o deganau mawr fel beiciau tair olwyn. Drwyddi draw, mae`r cylch chwarae yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafodd 4 holiadur eu dychwelyd. Mae`r sylwadau isod yn cyfeirio hefyd at drafodaethau byr gyda sampl o rieni wrth iddynt ddod â`u plant i`r cylch chwarae. Roedd yr holl rhieni yn cytuno`n gryf gyda`r datganiadau canlynol yn holiadur y rhieni:

1. Mae fy mhlentyn yn hoffi`r lleoliad hwn.
2. Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu`n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.
3. Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.
4. Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
5. Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

Roedd cytuno cyffredinol gyda`r datganiadau canlynol yn yr holiadur i rieni:

1. Rwy`n fodlon â`r lleoliad at ei gilydd.
2. Mae`r addysgu yn dda.
3. Mae`r staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.
4. Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion ungiol penodol.
5. Rwy`n teimlo`n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.
6. Rwy`n deall gweithdrefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.
7. Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r ysgol.

Hoffai nifer o rieni/gofalwyr fwy o wybodaeth am yr hyn mae eu plant yn ei wneud yn y cylch chwarae.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Roedd y rhan fwyaf o`r plant yn amharod i siarad â`r arolygydd a chafwyd gwên neu nodio pen fel ymatebion  Yr argraff gyffredinol (cefnogwyd hyn gan rieni/gofalwyr) oedd bod y plant yn edrych ymlaen at ddod i`r cylch chwarae ac yn mwynhau eu cyfnod yno.

Roedd trafodaeth, dros ginio, gyda phlant oedd wedi bod yn y cylch chaware yn flaenorol wedi cadarnhau eu mwynhad o`r amser yn y cylch chwarae.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)